**Arholiad Mynediad**
**Chwefror 2024**

# HANES - YNYSOEDD PRYDAIN

**Atebwch UN cwestiwn o Adran A ac UN cwestiwn o Adran B.**

---

## ADRAN A

1. A yw 'y gorffennol' a 'hanes' yn ddau beth gwahanol?
2. A yw ffynhonnell sy’n dangos tuedd yn gallu bod yn ffynhonnell wreiddiol ddefnyddiol i haneswyr yn eu hymchwil er gwaethaf y duedd?
3. Ym mha ffyrdd y gall haneswyr heddiw gasglu ffynonellau ac ysgrifennu hanesion am weithredwyr sydd ddim wedi eu cynrychioli’n ddigonol yn hanesyddol?
4. Sut mae hanesion trefedigaethau Prydain yn cyfrannu at ein dealltwriaeth o'r gymdeithas ym Mhrydain fel y mae heddiw?
5. Beth ydych chi'n ei ddeall yw ystyr 'hanes byd-eang'?
6. Beth mae 'distawrwydd' neu absenoldeb mewn archif yn ei olygu?
7. Pa ran sydd gan 'natur' mewn hanes?
8. A fydd y cyfryngau cymdeithasol yn newid dulliau haneswyr y dyfodol o ymchwilio i'r gorffennol?

## ADRAN B

### Y Cyfnod Cynnar a'r Canoloesoedd

9. Rhowch ddisgrifiad ac esboniad o’r newid ym mhatrwm poblogaeth Lloegr yn y Canoloesoedd.
10. Sut y llwyddodd brenhinoedd Lloegr i gadw gafael ar eu grym yn y Canoloesoedd?

11. I ba raddau y bu 1066 yn drobwynt yn hanes Prydain?
12. Beth oedd effaith fwyaf arwyddocaol buddugoliaeth William Goncwerwr yn Hastings yn 1066?
13. Beth sy'n diffinio argyfwng yn Lloegr yn y Canoloesoedd?
14. Pa effaith a gafodd colli Normandi yn 1204 ar allu'r Brenin John i lywodraethu?
15. Pam y llwyddodd Edward I i oresgyn Cymru?
16. Pam y cafodd Edward II ei ddiorseddu?
17. I ba raddau y mae Edward III yn haeddu cael ei ystyried yn 'frenin perffaith'?
18. Beth oedd prif effeithiau'r Pla Du yn eich barn chi?
19. Beth oedd prif achosion gwrthryfel Glyndŵr?

**Y Cyfnod Modern Cynnar**

20. A oedd Brwydr Bosworth yn 1485 yn garreg filltir arwyddocaol yn hanes teyrnas Lloegr?
21. Ai dim ond cam olaf concwest 1282 oedd yr uniad ffurfiol rhwng Cymru a Lloegr ym 1536?
22. Pa un yw'r disgrifiad cywiraf o Thomas Cromwell: arloeswr mawr neu gwas ffyddlon yn ufuddhau i orchmynion Harri'r VIII?
23. I ba raddau roedd Protestaniaeth yn Lloegr yn fudiad crefyddol gwirioneddol boblogaidd?
24. I ba raddau roedd Cymru'n wlad Brotestannaidd erbyn 1603?
25. Erbyn y 1640au, i ba raddau y gellid dweud mai lleoliad daearyddol oedd yn penderfynu cefnogaeth i'r Brenin neu'r Senedd?
26. Pam yr enillodd y Senedd y rhyfel cartref?
27. A fyddech chi'n cytuno bod cyfnod y Gymanwlad wedi cael mwy o effaith yng Nghymru na'r rhyfeloedd cartref yn yr ail ganrif ar bymtheg?

**Y Cyfnod Modern**

28. Pam y bu'r ymgyrch i ddiddymu'r fasnach gaethweision ym Mhrydain yn llwyddiannus yn y pen draw?

29. A gynyddodd rhan y wladwriaeth ym mywyd beunyddiol pobl yn ystod cyfnod Fictoria?
30. Pa mor llym oedd Deddf Newydd y Tlodion ar ôl 1834?
31. Pa mor amrywiol oedd y don gyntaf o ffeministiaeth ym Mhrydain (c.1860 i 1918) ac i ba raddau yr oedd yn ymestyn y tu hwnt i'r bleidlais yn unig?
32. Sut hwyluswyd y chwyldro diwydiannol ym Mhrydain gan bolisïau trefedigaethol yn gysylltiedig â rhannau eraill o'r byd?
33. Beth oedd y rheswm am y cynnydd ym mhoblogrwydd y Blaid Lafur yng Nghymru tan y cyfnod cyn 1914?
34. Pam y cafodd menywod ym Mhrydain eu rhyddfreinio (yn rhannol) yn 1918?
35. A fyddech chi'n cytuno bod gan haneswyr Prydain rhwng y ddau ryfel byd fwy o reswm i fod yn optimistaidd na phesimistaidd yn eu dehongliadau o'r cyfnod hwnnw?
36. Esboniwch lwyddiant ysgubol y blaid Lafur yn Etholiad Cyffredinol 1945.
37. Pan grëwyd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn 1948, a oedd hyn yn doriad sylweddol oddi wrth y gorffennol neu'n barhad o ddulliau hanesyddol o ddarparu gofal iechyd?
38. Sut ydych chi'n egluro'r ffaith bod pobl ifanc yn eu harddegau 'wedi dod i'r amlwg' ym Mhrydain yn y 1950au?
39. I ba raddau y rhannodd Cymru yn y profiad ehangach o dwf diwylliant ieuenctid a datblygiad cymdeithas oddefgar yn y 1960au?
40. Beth oedd 'Thatcheriaeth' a pha mor llwyddiannus y bu?